



# Cofnodion

**Y Senedd**

**28/10/2024**

## **Aelodau a fynychodd:**

Francesco Lanzi (Cadeirydd)

Bayanda Vundamina (Llywydd yr Undeb)

Tiff McWilliams (Swyddog Cyfleoedd)

Elain Gwynedd (Llywydd UMCA a Swyddog Diwylliant Cymru)

Mo Morgan (Swyddog Llesiant)

Will Parker (Swyddog Materion Academaidd)

Tristan Wood (Swyddog Gwirfoddol Myfyrwyr LHDTIC+)

Dewi Price (Swyddog dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd)

Heather Kerby (Swyddog Gwirfoddol Myfyrwyr Anabl)

Alex Molotska ( Swyddog Gwirfoddol Myfyrwyr Rhynglwadol)

Clare Foley (Swyddog Gwirfoddol Ôl-raddedig)

Livvy Hagget (Swyddog Gwirfoddol y Menyw/od)

Marty Fennell (Swyddog Myfyrwyr Traws ac O Rywedd Anghydfurfiol)

Evy Gwynne (Chwaraeon)

Jade Guildford (Chwaraeon)

Katie Mason (Chwaraeon)

Deborah Osarieme (Cymdeithasau)

Bruno Kington Brady (Cynrychiolydd Cymdeithasau Cymeradwydd iddo adael am 7yh)

Bradley Powell (Cynrychiolydd Cymdeithasau)

Ollie Hall (Cynrychiolydd Cymdeithasau)

Rory Young (Cynrychiolydd Prosiectau Gwirfoddol)

Mariam Elsergany (Cynrychiolydd Academaidd IR)

Millie Hackett (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Corfforol)

Jo Buys (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd)

Nanw Maelor (UMCA)



## Hefyd yn bresennol: (Gwylwyr o blith y myfyrwyr)

Dan Baxter

### Absenoldebau:


Ifeyinwa Anaduaka (Swyddog Gwirfoddol DALIE) anfonwyd ymddiheuriadau

Ozzy Humphreys (Cynrychiolydd Cymdeithasa) anfonwyd ymddiheuriadau


Agenda	Eitem	Cofnodion	Crynodeb o'r Bleidlais		
			O blaid	Yn erbyn	Ymwrthod
<b>Sylwadau Croesawu ac Agoriadol</b>	Rhoddodd Cadeirydd yr Undeb groeso i bawb a ddaeth i'r cyfarfod	Mae Cadeirydd yr Undeb yn croesawu pawb i'r cyfarfod. Dechrau'r cyfarfod: 18:04 Caed diweddariad gan y cadeirydd ar bresenoldeb a dros beth mae aelodau wedi pleidleisio. Gellir cael crynodeb o hyn ar wefan Undeb Aber.			
	Ymddiheuriadau am Absenoldeb	Darllennodd y Cadeirydd yr ymddiheuriadau a gaed gan y ddau na ddaeth.			
	Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Materion sy'n Codi	Dim cofnodion na materion sy'n codi i'w cymeradwyo			
	Cyflwyniadau	Cyflwynodd pawb yn yr ystafell ei hun.			




<b>Ethol dirprwy-gadeirydd</b>	Gofynnwyd pwy a hoffai sefyll a phleidleisio.	Gofynnodd y cadeirydd pwy hoffai sefyll. Cododd un ei law. Etholwyd Deborah (CYM)			
<b>Polisiau sy'n dod i ben</b>	Diweddariadau	Rhoddodd y cadeirydd ddiweddariad ar ba bolisiau sy'n dod i ben. Gweler yr agenda yma.			
<b>Adroddiad y Swyddogion</b>	Y swyddogion yn trafod yr hyn y maent yn gweithio arno a'u blaenoriaethau at y flwyddyn.	Rhoddodd y swyddogion ddiweddariad ar yr hyn y maent yn gweithio arno. <u>Gweler yr adroddiad yma.</u>			
<b>Syniad 1:</b> Diwygiad i is-ddeddf y bleidlais holl fyfyrwyr.  6:45	Araith y cynigydd	Traddodwyd gan Tif (SLIA)  Rhoddodd Tiff grynodedb o'r cynnig, yn dweud bod y syniad hwn eisoes wedi'i basio yn Nghyfarfod Cyffredinol y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Angen cytuno ar ei eiriad. Mae gennym bolisiau tebyg ar gyfer Cynrychiolwyr Academaidd ac wrth wneud hyn, daeth i'r olwg bod bwch o ran pleidlais o ddiffyg hyder i Swyddogion Gwirfoddol. Esboniwyd y canrannau a ddewisiwyd lle gellir dyfalu'n gall.			
	Cwestiynau   Sylwadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Alex (SG): Ar yr agenda mae croes trwy 'y lleiaf'? Ydy hyn yn wahanol i'r hyn a gafodd ei ddweud?</li> <li>Tiff (SLIA): Cymgymeriad yw hwn; ni ddylai fod gyda chroes drwyddo.</li> <li>Tiff (SLIA): Rhoddwyd enghraifft o sut y gallai hyn weithio:</li> </ul> <p>Y Swyddogion LDHTC+ - Os ydy 32% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn LDHTC+ ar eu cofnod myfyriwr, yna byddai hynny'n golygu fod 1955 allan o 8500 o fyfyrwyr. 391 fyddai 20% o'r boblogaeth honno felly byddai angen 250 i alw am bleidlais. 587 yw 30% o boblogaeth y myfywrwyr LDHTC felly byddai angen 500 i bleidleisio er mwyn iddi gyfri. Byddai</p>			



		<p>rhaid i boblogaeth syml (o leiaf 51%) bleidleisio o blaid pleidlais o ddiffyg hyder er mwyn iddi lwyddo.</p> <p>Swyddog DALIE Os ydy 10% o'r boblogaeth yn nod eu bod yn DALIE ar eu cofnod myfyriwr yna byddai hynny'n golygu 850 allan o 8500. 170 yw 20% o'r boblogaeth honno felly byddai'n rhaid cael 170 i alw am bleidlais gan ei bod yn llai na 250. 255 fyddai 30% o boblogaeth y myfyrwyr DALIE felly dyna'r nifer a fyddai angen er mwyn i'r bleidlais wneud cworwm gan fod llai na 500. Eto, byddai rhaid i boblogaeth syml (o leiaf 51%) bleidleisio o blaid pleidlais o ddiffyg hyder er mwyn iddi lwyddo.</p>			
Adborth o Drafodaethau Grŵp		<ul style="list-style-type: none"><li>• Millie (SC): Doedd gan eu grŵp ddim problemau gyda'r geiriad a'r canrannau - mae'n teimlo'n iawn mai dim ond eich carfarn eich hun all beri pleidlais o ddiffyg hyder.</li><li>• Tristan (SG): Ni ddylech chi ond gael pleidleisio dros faterion sy'n ymwneud â'r hyn rydych chi'n hunan-adnabod fel.</li><li>• Ollie (CYM): Roeddem yn poeni am y canrannau isel yn wreiddiol ond nawr rydym yn deall mai dim ond agor y bleidlais yw hyn. Tiff (SLIA): Ie, y pwynt yw ei gwneud hi'n ddigon hawdd galw os oes problem, ond yn ddigon anodd na fyddai rhywun yn ei wneud er ei fwyn.</li><li>• Nanw (UMCA): Roeddem yn credu ei fod yn ddiweddiariad da yn enwedig i'r rhai sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol.</li><li>• Clare (SG): Oherwydd ei fod yn achos o hunan-adnabod, a yw hyn yn golygu y gall unrhyw un bleidleisio? Tiff (SLIA): Byddai angen i chi hunan-adnabod yn gyntaf ac yna byddech yn gallu pleidleisio. Byddwn</li></ul>			




		yn edrych ar systemau MSL ynghylch sut y byddem yn gweithredu hyn.			
	Sylwadau Eraill	<ul style="list-style-type: none"> <li>Crynhodd Tiff y syniad - Systemau sydd eisoes yn bodoli, rydym ni eisiau eu gwneud yn well ac yn fwy teg.</li> </ul>			
	Pleidlais	<b>PASIWYD y Syniad</b> <a href="#">Gellir gweld sut y pleidleisiodd y Senedd yma</a>	100%	0%	0%
<b>Syniad 2:</b> <b>Polisi o Ddim</b> <b>Goddefgarwch</b> <b>tuag at</b> <b>wahaniaethu,</b> <b>aflonyddwch ac</b> <b>ymosodiadau</b> <b>rhywiol.</b>  <b>7:20</b>	Araith y Cynigydd	<p>Trafodwyd gan: Mo (SLIA):</p> <p>Crynhodd Mo y syniad; i'r Undeb hyrwyddo lles myfyrwyr. Fe wnaethom ni lawer o waith y llynedd yr ydym am barhau ag eg. Gweler yr agenda ar gyfer cynnig llawn.</p> <p>Yn gwrthwynebu'r syniad: Neb.</p>			
	Cwestiynau   Sylwadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Will (SLIA): Beth mae dim goddefgarwch yn ei olygu? Mo (SLIA): Ni fyddwn yn ei dderbyn - nid oes byth esgusodion.</li> <li>Bayanda (SLIA): Beth yw safbwynt? Mo: Nid ydym o reidrwydd yn gwneud unrhyw beth ond barn yw hyn. Ychwanegodd Ash (Cydlynnydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth) fod gennym safiad ar hawliau o blaid hawliau atgenhedlol. Nid ydym o reidrwydd yn gwneud unrhyw beth â hyn, ond os yw'r llywodraeth yn gwahardd terfyniadau, efallai y byddwn wedyn yn gwneud rhywbeth.</li> <li>Clare (SG): Sut fydddech chi'n gweithredu polisi o ddim goddefgarwch? Mo (SLIA): Os yw'r polisi hwn yn cael ei basio, gallwn wneud ymchwil pellach iddo.</li> <li>Olly (CYM): Sut byddai hyn yn cael ei orfodi gan grwpiau myfyrwyr?</li> </ul>			



		<p>Mo (SLIA): Mae'n dibynnu ar yr achos - bydd yn mynd trwy'r gweithdrefnau cwyno arferol. Fel undeb dim goddefgarwch yw ein safiad.</p> <p>Olly (CYM): A fyddai rhaid i'r person roi'r gorau iddi?</p> <p>Mo (SLIA): Mae'n dibynnu ar yr achos.</p>			
	Adborth o Drafodaethau Grŵp	<ul style="list-style-type: none"><li>• Will (SLIA): Mae safiad yn gwneud synnwyr ond mae geiriad yn gwneud iddo deimlo fel gweithred. Pe bai'n cael ei weithredu, beth fyddai'n newid? Tiff (SLIA): Rydym eisoes yn gwneud llawer ar gyfer hyn, nid o ran newid hyn ond i weiddi mwy am ein bod eisoes yn ei wneud. Mae lot wedi newid yn y flwyddyn ddiwethaf ac ry'n ni eisoes yn gweithio arno gymaint, dim ond ffordd o weiddi ein bod ni'n ei wneud.</li><li>• Mariam (CA): Nid canlyniadau gweithredoedd ond dim ond yn dweud yn foesol nid iawn ag ef.</li><li>• Rory (PG): Roedd gennym gwestiwn am y crynodeb. Ynglŷn ag aflonyddu rhywiol, ymosod a bwlio. A yw hyn yn cael ei daenu i fod yr un peth? Gall bwlio fod yn anoddach ei ddiffinio. Gan gwestiynu'r tri hynny gyda'i gilydd a'r pwysau moesegol ynghlwm ag e. Ai sôn am fwlio yn gyffredinol neu'n rhywiol yw hyn? Mo (SLIA): Mae'n ymwneud â bwlio ac ymddygiad amhriodol.</li><li>• Clare (SG): Onid yw hyn yn newid dim ond bod y Brifysgol yn cael ei chefnogi gan Undeb yn fwy? Sut y bydd yn wahanol? Mo (SLIA): Dim ond safiad yw hyn.</li><li>• Nanw (UMCA): Rydym yn cytuno mai polisi pwysig yw hwn; peth da yw bod yr Undeb eisoes wedi gwneud rhywbeth fel hyn. Meddwl bod angen mwy arnom am y systemau sy'n digwydd ar ôl gyda gweithdrefnau.</li></ul>			



		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bayanda (SLIA): Fel sefydliad, mae angen i ni fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r term dim goddefgarwch gan y gallai fod yn ddrwg. Rhoddodd yr enghraifft o gymdeithas wrth-erthyliaadau yn Lerpwl. Dim ond bod yn ofalus gydag achosion unigol.</li> <li>• Millie (SC): Nid yw hyn yn mynd ati i wneud rhywbeth, dim ond dweud yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud. Dim ond dweud bod yr Undeb yn ei erbyn ar lefel foesegol. Hwyrach ein bod yn egluro nad ydym yn cefnogi hynny.</li> <li>• Livvy (SG): Gall wneud i bobl deimlo'n fwy diogel yn yr Undeb os ydyn nhw'n gwybod ein bod ni yn ei erbyn ac efallai y byddan nhw'n fwy tebygol o gyflwyno problem.</li> <li>• Tristan (SG): Mae'n dda cael sôn am beth sy'n digwydd. Gall y pethau hyn yn hawdd fynd heb sylw.</li> </ul>			
	Sylwadau Eraill	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mo yn crynhoi'r syniad: siarad am bolisi o ddim goddefgarwch oherwydd yr ystadegau sydd wedi dod allan.</li> </ul>			
	Pleidlais	<p><b>PASIWYD y syniad</b></p> <p><a href="#">Gweler sut y pleidleisiodd y Senedd yma.</a></p>	95%	0%	4%
<p><b>Syniad 3:</b>  <b>Rydym ni'r</b>  <b>myfyrwyr eisiau</b>  <b>gweld y</b>  <b>Cyfleusterau</b>  <b>Chwaraeon yn</b>  <b>cael eu</b>  <b>hadnewyddu</b>  <b>(diwygiedig).</b></p> <p><b>7:45</b></p>	Syniadau arfaethedig	<p>Trafodwyd gan: Tiff (SLIA)</p> <p>Fe wnaeth y Cadeirydd ddiweddarau'r Senedd bod hwn yn bolisi oedd ar fin dod i ben.</p> <p>Crynhodd Tiff (SLIA) y syniad, gan ddweud ei bod wedi gweithio arno y llynedd ac mae'n bwysig i Swyddogion Cyfleoedd y dyfodol weithio ar hyn. Gydag Phrifweithredwr newydd, mae'n gyfle gwych i ddangos iddynt beth ddylent fuddsoddi ynddo, gan fuddsoddi mewn rhywbeth a fydd yn ennill arian iddynt.</p>			



		<p>Mae'r rheini sydd mewn grŵp myfyrwyr yn fwy tebygol o gael swyddi, cael gwell graddau ac yn llai tebygol o adael y brifysgol.</p> <p>Mae bod yn rhan o dîm chwaraeon yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol.</p> <p>Rhoddodd Tiff diweddariad ar y rhestr o bethau y mae angen eu gwella o hyd. Gweler yr agenda.</p> <p>Ar hyn o bryd maen nhw'n ysgrifennu strategaeth chwaraeon y brifysgol ac yn gwneud cais am grantiau.</p> <p>Yn erbyn y polisi hwn: Will (SLIA): Rwy'n credu y dylid gwario arian ar adrannau ac addysg. Fel y Swyddog Academaidd, hoffwn ddweud hyn. Rwy'n ei gefnogi ond dim ond o siarad o safbwynt fy swydd.</p>			
	Cwestiynau   Sylwadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim Cwestiynau</li> </ul>			
	Adborth oddi wrth drafodaethau Grŵp	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bayanda (SLIA): Mae'n bolisi da i'w gael a dylai fod yn swyddogaeth y Swyddog Cyfleoedd Sylwad i'r rhai yn erbyn: rydym ni fel tîm swyddogion yn ymladd dros yr un peth. Er eich bod yn anghytuno, rydym i gyd yn cystadlu i symud ein blaenoriaethau ymlaen, nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth os caiff y polisi hwn ei basio. Fel swyddogion, byddwn yn ymladd dros wahanol bethau ond yn dal i gydweithio.</li> <li>• Elain (SLIA): Nid ydym am fod ar ein colled yn nhermau academaidd os caiff hyn ei basio.</li> </ul> <p>Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am yr arian sy'n dod o grantiau. Mae'n debyg na fydd yr arian yn gallu mynd i unrhyw le arall.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rory (PG): Pe bai arian ar gael, pwy fyddai'n dewis ar ba beth y mae'r arian am gael ei wario? Ydy'r</li> </ul>			





		<p>myfyrwyr yn cymryd rhan yn hyn? Er enghraifft, nid yw rhai pobl yn hoffi'r dôm chwaraeon, ond gwariwyd arian ar hyn.</p> <p>Tiff (SLIA): Bydd strategaeth yn cael ei chreu eleni gan gynnwys datrysiadau bach. Mae Will am cyfarfod â myfyrwyr o ran blaenoriaethau ac yn siarad â staff chwaraeon am yr hyn y maent ei eisiau. Bydd y strategaeth yn cynnwys popeth. Nid o reidrwydd yn blaenoriaethu ond trwsio'r hyn y gallwn pan allwn ni. Bydd myfyrwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau.</p> <p>Mae'r gromen wedi helpu llawer o'n grwpiau myfyrwyr trwy ddarparu lle mwy. Mae'r ganolfan chwaraeon yn dal yn fodlon ystyried awgrymiadau ar gyfer y gromen felly os oes gennych chi syniadau ar gyfer gwella, rhowch wybod i mi.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Jade (CHWAR): Gall grwpiau bach fod dan anfantais gan grwpiau mwy gan fod ganddynt lais cryfach.</li></ul> <p>Tiff (SLIA): Mae'n ymwneud yn fwy â'r hyn sydd ei angen fwyaf. Mae gennym fannau dawnsio, ond nid oes gan rai grwpiau myfyrwyr unrhyw beth. Er enghraifft, nid oes gan hoci unrhyw beth, ac rydym yn gwario llawer o arian ar eu hanfon i ffwrdd. I ddechrau, rydym yn fwy tebygol o gael lle hoci na man dawnsio fel sydd gennym ni hyn eisoes. Gallai cae newydd gefnogi llawer o wahanol grwpiau.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Rory (PG): Beth yw eich barn ar sut y byddai hyn yn blaenoriaethu clybiau chwaraeon?</li></ul> <p>Tiff (SLIA): Mae hyn yn dibynnu ar y swyddog a etholir a beth sydd o bwys iddynt. Mae'r adborth a roddwyd i mi yn ymwneud yn bennaf â chwaraeon felly dyna pam rwy'n gweithio arno. Nid yw o</p>			
--	--	--	--	--	--



		<p>reidrwydd yn golygu y bydd pethau eraill yn cael eu gwrthod neu nad ydynt yn bwysig.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Will (SLIA): A fyddai'r cyfan yn arian grant neu a fyddai rhai yn arian prifysgol?</li></ul> <p>Tiff (SLIA): Efallai y daw peth o'r arian gan y brifysgol ond rwyf am i'r brifysgol fuddsoddi ynddi oherwydd ei bod yn bwysig. Fodd bynnag, er mwyn dechrau arni mae angen i mi wneud rhywbeth, gan ddefnyddio grantiau i dalu amdano i ddangos ei fod yn beth da i'w wneud. Mae hon yn broses hir ac ni fydd popeth yn digwydd ar unwaith. Mae am ateb y gofyn bob hyn a hyn pan allant fforddio ei wella yn yr hir dymor.</p> <p>Will (SLIA): Byddai'n well gwario arian ar bethau fel y llyfrgell.</p> <p>Tiff (SLIA): Fel swyddogion, rydym yn gweithio ar wahanol bethau.</p> <p>Elain (SLIA): Mae'r Brifysgol wedi rhestru y rhesymau dros y llyfrgell. Nid wyf yn credu y gellir eu cymharu.</p> <p>Will (SLIA): Pe bawn i'n fyfyrwr cyffredin ac yn gweld y brifysgol yn gwario arian ar chwaraeon ond yn cau rhywle fel y llyfrgell, byddai hynny yn fy ngwylltio. Mae myfyrwyr yn dod am radd nid chwaraeon.</p> <p>Elain (SLIA): Mae tystiolaeth sy'n dangos y gall chwaraeon gael effaith ar eich graddau.</p> <p>Ollie (CYM): Sut allwch chi gyflwyno unrhyw beth os gallai fynd i rywle arall? Mae llefydd eraill y gellid gwario'r arian arnynt cofiwch.</p> <p>Will (SLIA): Dim ond eisiau siarad ran myfyrwyr yw hyn.</p>			
--	--	--	--	--	--



		<p>Evy (CHWAR): Efallai y bydd yn ymddangos nad ydym yn gwario unrhyw arian.</p> <p>Jade (CHWAR): oes unrhyw amodau ar gyfer grantiau?</p> <p>Tiff (SLIA) Rwy'n edrych ar grantiau chwaraeon penodol. Edrych ar gyrff cenedlaethol ar gyfer chwaraeon.</p> <p>Jade (CHWAR) A allai gael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth arall?</p> <p>Tiff (SLIA) Na allai.</p>			
	Sylwadau eraill.	<p>Alex (SG): Cynnig i bleidleisio - PASIWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tiff (SLIA) Crynodeb - Mae gwella'r cyfleusterau chwaraeon yn gwella lalwer o bethau. Mae'n dangos nad yw un peth yn bwysicach na'r llall ac y gall ennill arian.</li> <li>Will (SLIA) Crynodeb - Os na ddaw'r arian o grantiau, digon teg, fodd bynnag mae cyfleusterau academaidd yn werth mwy ta waeth.</li> </ul>			
	Pleidleisio dros y syniad	<p><b>PASIWYD y syniad hwn</b></p> <p><a href="#">Gweler sut y pleidleisiodd y Senedd yma</a></p>	80%	16%	
<b>Unrhyw Fusnes Arall</b>	<p><b>Unrhyw Fusnes Arall</b></p> <p>Anogodd y cadeirydd i gofnodi oriau gwirfoddoli.</p> <p>Dewch i gael tynnu eich llun os nad ydych chi eisoes wedi'i wneud, ewch i'r wefan.</p> <p><b>Y Senedd nesaf:</b> 02/12/2024</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben: 19:40</p>				

**SLIA = Swyddog Llawn Amser**



**SG = Swyddog Gwirfoddol**

**SC = Swyddog Cyfadran**

**Chwar = Cynrychiolydd Chwaraeon**

**Cym = Cynrychiolydd Cymdeithasau**

**UMCA = UMCA**

**PG = Cynrychiolydd Prosiect Gwirfoddol**

**CA = Cynrychiolydd Academaidd**

**Aelod = Aelod Undeb Aber er nad yw'n Aelod o'r Senedd**

